PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD MERCHER, 22 GORFFENNAF 2020

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd K Jones(Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Lay, Ahmed, Asghar Ali, Driscoll, Gordon, Hudson, Jacobsen, Jones-Pritchard, Keith Parry, Sattar a/ac Stubbs |

67 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim

68 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Abdul Sattar fuddiant anffafriol yng nghais 19/03210/MJR – Tramshed, Pendyris Street, Grangetown ac ni chymerodd ran yn y cais hwnnw.

69 : COFNODION

Cymeradwywyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2020 fel cofnod cywir.

70 : DEISEBAU

Rhif cais 19/01012/MJR, Maes Parcio Aml-lawr, Stryd Stuart, Bae Caerdydd

Mewn perthynas â'r uchod, siaradodd y deisebwr ac ymatebodd yr ymgeisydd.

71 : CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU

Ystyriodd y Pwyllgor y rhestr o geisiadau rheoli datblygu a gyflwynwyd yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

PENDERFYNWYD: Y dylai'r Pwyllgor hwn yn unol â phwerau a ddirprwyir iddo benderfynu ar y ceisiadau rheoli datblygu canlynol yn ôl yr argymhellion a nodir yn adroddiad Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ddinas yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau pellach fel y manylir arnynt isod, a rhoi gwybod am y penderfyniad yn unol ag Adran 70 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1980 neu Adran 74 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth 1980):

**CEISIADAU A GANIATEIR**

**20/00361/MJR – PLASNEWYDD**
160-166 STRATHNAIRN STREET

Dymchwel yr holl adeiladau ac adeiladu 12 fflat hunangynhwysol gydag amwynder, storfa feics a storfeydd gwastraff ar y safle.

**19/03210/MJR – GRANGETOWN**
TRAMSHED, PENDYRIS STREET

Amrywio amod 9 15/00225/MJR, i estyn oriau gweithredu i ganiatáu 31 digwyddiad y flwyddyn i weithredu tan 03:00

Yn amodol ar ddiwygiad i amod 42

"Cyn gweithredu amod 9 cais 15/00225/MJR (fel y'i diwygiwyd gan gais 19/03210/MJR), caiff Cynllun Rheoli wedi'i ddiweddaru ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, a cheir cymeradwyaeth ysgrifenedig ganddo. Bydd hyn yn cynnwys pob agwedd sy'n gysylltiedig â chwsmeriaid yn ciwio cyn i'r digwyddiad gychwyn; cwsmeriaid yn gadael ar ôl y digwyddiad a gwasgaru cwsmeriaid yn gyflym. Bydd y cynllun yn sicrhau na ddigwydd ciwio ar Pendyris Street, ond ar hyd Clare Road yn ôl o dan y bont reilffordd"

**19/03179/DCH – CATHAYS**
24 LETTY STREET

Yn amodol ar ddiwygiad i amod 2

Gwneir y gwaith datblygu yn unol â'r cynlluniau cymeradwy canlynol:

- CED5/3/a – Gweddluniau Arfaethedig
- CED5/18 – Rhan o'r Rhandy

**<u>CEISIADAU A GANIATEIR WRTH WEITHREDU RHWYMEDIGAETH GYNLLUNIO YN UNOL AG ADRAN 106 DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990</u>**

**19/01930/MJR – BUTETOWN**
CRAWSHAY COURT, 6 CURRAN ROAD

Adeilad a 188 o fflatiau gydag ardaloedd atodol, parcio, man agored cyhoeddus, uned(au) A1/A3 a theras to i breswylwyr.

**19/01012/MJR – BUTETOWN**
MAES PARCIO AML-LAWR, STRYD STUART

Estyn a newid y maes parcio aml-lawr, ailgyflunio trefn y maes parcio, mynedfa wedi'i diwygio/ychwanegol a mannau gadael, hyb beiciau, gwaith tirlunio a gwaith cysylltiedig.

Yn amodol ar ddiwygiad i amod 4.

Manylion Pensaernïol: Cyn dechrau ar unrhyw waith adeiladu bydd cynllun yn arddangos manylion pensaernïol yr adeiladau'n cael ei gyflwyno ac yn cael ei gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, ac ni fydd y datblygiad yn dod i ddefnydd llesiannol nes bydd y cynllun cymeradwy'n cael ei weithredu. Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd y cynllun yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i. fesurau i liniaru unrhyw effeithiau andwyol o ran golau, sŵn a'r gallu i edrych dros safleoedd preswyl cymdogion.

**19/01083/MJR – GLAN YR AFON**
BARCLAY COURT, 104-108 HEOL Y GADEIRLAN

Cynnig i newid Barclay Court o gartref preswyl yn 18 fflat (dosbarth defnydd C3), gan gynnwys newidiadau mewnol ac allanol, mynedfa, maes parcio a'r holl waith cysylltiedig

Yn amodol ar Amod 20 ychwanegol, fydd yn nodi:

"Er gwaethaf y cynlluniau a gymeradwywyd, cyn y defnydd llesiannol o unrhyw fflat a gymeradwyir drwy hyn, addesir y ffordd fynediad i'r maes parcio yn unol â chynllun manylion y mae'n rhaid ei fod wedi ei gyflwyno'n gyntaf i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo yn ysgrifenedig ganddo, a rhaid ei gynnal wedi hynny. Bydd y cynnig manwl yn ceisio gwella amlygrwydd ceir, beiciau a cherddwyr sy'n mynd i mewn neu'n gadael y datblygiad.
Rheswm: Gwella gwelededd a diogelwch defnyddwyr y lôn yn unol â pholisi KP5 Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd wedi'i Fabwysiadu.

Yn amodol ar addasu amod 16 at ddewis y Swyddog Trafnidiaeth:

"Er gwaethaf y darluniau a gymeradwywyd, cyn meddiannu'n llesiannol unrhyw un o'r fflatiau a gymeradwywyd, rhaid cynnig cyfleuster parcio beiciau hygyrch a diogel a gorchuddiwyd yn unol â chynllun manylion a fydd wedi'i gyflwyno'n gyntaf i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Ar ôl hynny, caiff y cyfleuster parcio beiciau ei gynnal ac ni chaiff ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall.
Rheswm: I sicrhau bod digon o le i barcio beiciau'n ddiogel mewn man a orchuddir"

**<u>CEISIADAU A DYNWYD YN ÔL</u>**

**16/01074/MNR –LLANDAF**
RHAN O DIR YNG NGHEFN 35 ELY ROAD

Adeiladu annedd deulawr ag un ystafell wely

RHESWM: Tynnwyd yn ôl ar gais yr ymgeisydd.

72 : ADRAN 257 DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990: MAELFA

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo Cais Gwyro Adran 257 er mwyn galluogi'r tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus i gyfarwyddo'r Gwasanaethau Cyfreithiol i brosesu'r Gorchymyn Cyfreithiol

73 : CEISIADAU WEDI EU PENDERFYNU GAN BWERAU DIRPRWYEDIG – MEHEFIN 2020

Nodwyd

74 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ardystiodd y Cadeirydd, ar ôl ceisio cytundeb y Pwyllgor, fod y cais yn unol ag Adran 257 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 am Orchymyn Gwyro Llwybr Cyhoeddus Rhif 16 Sain Ffagan yn eitem frys. Nid oedd yr eitem ar gael cyn cyhoeddi agenda'r

Pwyllgor ac roedd yn hanfodol i'r Pwyllgor ei hystyried er mwyn sicrhau nad oedd y llwybr cerdded yn cael ei adeiladu na'i rwystro'n anghyfreithlon.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo Cais Gwyro Adran 257 er mwyn galluogi'r tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus i gyfarwyddo'r Gwasanaethau Cyfreithiol i brosesu'r Gorchymyn Cyfreithiol

75 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - 19 AWST 2020

Daeth y cyfarfod i ben am 4.45 pm